## Heddlu Gogledd Cymru

Mae parhad dal yn bodoli mewn perthynas gwaith da o fewn MAPPA. Mae'r dull Pedwar Colofn (Four Pillars) wedi eu mabwysiadu yn eang bellach ar gyfer yr holl droseddwyr gan ganolbwyntio ar oruchwyliaeth, monitro a rheoli, ymyriadau a diogelwch y dioddefwr. Mae hwn wedi arwain at greu cynlluniau rheoli risg gwell.

Datblygiad cadarnhaol arall yw'r perthynas gweithio agos sydd wedi parhau i aeddfedu rhwng cydweithwyr y Gwasanaeth Prawf ar Heddlu sy'n gyfrifol am fonitro troseddwyr rhyw yn gyffredinol. Mae'r asesiad ARMS ar y cyd sydd yn cael ei gwblhau wedi darparu cipolwg gwell i mewn i feddylfryd o gwmpas ffordd o fyw y troseddwr ar tebygolrwydd o ail-droseddu.

Enghraifft o achos rheoli risg a arweiniwyd gan yr Heddlu yw achos sy'n ymwneud a unigolyn oedd wedi ei asesu fel risg uchel. Cafodd ei rhyddhau o'r carchar ar ddiwedd ei gyfnod Prawf. Yn ystod ei amser yn yr carchar roedd wedi datblygu cysylltiadau gyda menywod oedd a chysylltiadau i blant. ar draws Prydain. Caniataodd y broses MAPPA cysylltiad gyda nifer o lluoedd Heddlu eraill a cwblhawyd datgeliadau perthnasol i oedolion cyfrifol oedd mewn sefyllfa i ddiogelu'r plant hynny. Llwyddwyd i sicrhau SOPO drwy'r llys i gynorthwyo gyda rheoli ei ymddygiad. Cafodd eu datgeliadau eu gwneud i llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chyfleusterau addysgol ar draws yr ardal i fonitro ei weithgareddau.

Enghraifft arall o fewn y 12 mis diwethaf oedd troseddwr rhyw oedd i fod i gael ei rhyddhau i Adeilad Cymeradwy. Nodwyd gan MAPPA fod y dioddefwr wedi symud i fyw yn agos ir ardal yma ac oherwydd hyn newidiwyd y trefniadau fel ei fod yn cael ei rhyddhau i Adeilad Cymeradwy arall allan o'r ardal yn lle. Arweiniodd tystiolaeth o gyfathrebu da rhwng Unedau Troseddwyr Rhyw a Treisgar Heddlu Gogledd Cymru, ynghyd a'r Gwasanaeth Prawf y ddwy ardal yma at adleoli to troseddwr rhyw yma gyda chynllun rheoli risg priodol ar waith. Hefyd dangoswyd dilyniant da drwy MAPPA oherwydd mae'r Cydlynydd MAPPA gadeiriodd y ddau gyfarfod ac felly yn gwbl ymwybodol o'r amgylchiadau.

Mae achos "Mr A" yn tynnu sylw at enghraifft o sut mae'r broses MAPPA yn sicrhau bod cynllun rheoli risg cadarn yn cael ei weithredu ac hyn o ganlyniad i cydlynu gyda amryw o asiantaethau. Mae "Mr A" yn achos oedd yn perthyn i'r Heddlu ar Gwasanaeth Prawf gan ei fod yn droseddwr rhyw ar drwydded. Mae nifer o faterion wedi eu wynebu gyda'i gyflwyniad un nol ir gymuned ac mae perthynas gwaith da rhwng yr Heddlu ac asiantaethau eraill wedi sicrhau fod yna cynllun rheoli risg parhaus un cael eu ddiweddaru ac ardaloedd o cyfrifoldeb clir wedi ei dosbarthu.

## Lynsey Roberts

## Rheolwr Troseddwyr – Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC)

Roeddwn yn gweithio gyda dyn ifanc – "Mr B" yn wythnosol. Un diwrnod daeth ir swyddfa a dechreuodd ddangos ymddygiad pryderus gan fygwth niweidio ei hun a/neu eraill. Roedd ei gyflwr y diwrnod hwnnw yn wahanol iawn i'w gyflwr arferol felly anogais iddo fynd i'w adran damweiniau a achosion brys lleol gyda'r golwg iddo weld Cyswllt Seiciatrig. Cafodd ei gyfweld gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac yn eu barn nhw ystyri'r ei fod yn feddyliol dda ac bu iddynt awgrymu iddo weld ei feddyg teulu. Roedd "Mr B" yn rhwystredig gyda'r asesiad hwn ac aeth ati i fygwth ymosod arnynt cyn dychwelyd yn nol atai yn y swyddfa.

Pan welais "Mr B" y prynhawn hwnnw, roedd yn hynod emosiynol, yn erfyn am gymorth ac i'r lleisiau yn ei ben stopio. Roedd hefyd yn dweud ei fod am ladd rhywun a lladd ei hun. Cymerais rhain i fod yn fygythiadau gwirioneddol gan ei fod yn ymddangos i fod mewn cyfyngder mawr.
Bu i mi ffonio 999 ac arestiwyd yr unigolyn yma o fewn yr awr. Mae wedi cael ei garcharu ers hynny – ac mae bellach mewn Uned Diogelwch Canolig – yna yn orfodol. Cyflawnwyd hyn drwy gwblhau adroddiadau cynnydd cynhwysfawr ar gyfer y Llysoedd lleol yn amlinellu pryderon a egluro'r risgiau petai'r unigolyn yn cael ei rhyddhau ir gymuned.

Oherwydd fy mhryder y gallai'r unigolyn yma gyflawni niwed difrifol eraill a neu iddo'i hun trafodais y sefyllfa gyda Rheolwr Tim er mwyn trosglwyddo'r rholiant ohono i'r Gwasanaeth Prawf oherwydd roedd o'r farn fod angen ei gyfeirio at MAPPA er mwyn cael yr opsiwn o Adeilad Cymeradwy.

Derbyniwyd yr unigolyn gan y Gwasanaeth Prawf ac fe'i gyfeiriwyd at MAPPA lefel 3. Gwirfoddolais i fynychu'r cyfarfod gyda'r rheolwr troseddwr newydd o'r Gwasanaeth Prawf gan fod gennyf yr gwybodaeth blaenorol ac yn dyst i'r dirywiad yn ei ymddygiad. Hefyd roedd gennai wybodaeth ynglŷn a mab "Mr B" oedd ar yr un pryd yn cael ei dynnu oddi wrth ei deulu. Roeddwn hefyd wedi gweithio gyda cyn-bartner "Mr B" (mam ei fab), unigolyn yr oedd yn gwneud bygythiad i'w niweidio.

Mynychais dau o'r cyfarfodydd hyn yn unig gan fy mod yn teimlo fy mod wedi rhannu yr holl wybodaeth roedd gennai ar yr unigolyn yma.
Roedd y broses ar y cyfan yn un boddhaol gan fy mod wedi bod yn rhan o MAPPA gyda unigolion eraill yn y gorffennol. Teimlais fy mod yn gallu cefnogi fy cydweithwyr o fewn y Gwasanaeth Prawf i gyflawni'r canlyniad cywir ar gyfer lles yr unigolyn ac hefyd diogelu'r cyhoedd.

